

Crynodeb Gwirio Ansawdd  
Practis Deintyddol Stryd Portland  
Dyddiad y gweithgarwch: 17 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mehefin 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffonio: 0300 062 8163  
E-bostio: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Y wefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Stryd Portland fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Practis Deintyddol Stryd Portland yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Aberystwyth, Ceredigion a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o Colosseum Dental Group, sydd â rhwydwaith o bractisau deintyddol ledled y DU. Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol preifat a GIG.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis, y nyrs arwain a'r derbynnydd arwain ar gyfer Practis Deintyddol Stryd Portland ar 17 Mai 2022 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

### Practisiau Deintyddol

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwedd / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych chi'n diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

---

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Aseiad risg amgylcheddol diweddar y practis
- Rhestr wirio aseiad risg COVID-19

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom wybod am y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis o ganlyniad i'r pandemig. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i staff a chleifion ynghyd â gorsafoedd golchi a diheintio dwylo ym mhob rhan o'r adeilad. Roedd amserlenni glanhau wedi cael eu haddasu i alluogi glanhau amlach.

Disgrifiwyd y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn y manau cymunol a'r ystafelloedd triniaeth. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol a system un ffordd ar gyfer cleifion a staff. Mae wyth ystafell driniaeth ddeintyddol a thair ystafell aros yn y practis.

Er mwyn diogelu staff a chleifion yn y practis, cawsom wybod bod y drws blaen ar glo ar bob adeg er mwyn atal aelodau'r cyhoedd rhag dod i'r practis heb oruchwyliaeth a heb apwyntiad.

Roedd cleifion a oedd angen gweld y deintydd yn cael gwahoddiad i ddod i'r practis drwy apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Cawsom wybod bod y staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol priodol. Eglurodd staff y cysylltwyd â chleifion dros y ffôn cyn eu hapwyntiad a gofynnwyd cyfres o gwestiynau iddynt i bennu a oeddent yn peri risg o drosglwyddo'r feirws. Cadarnhawyd yr wybodaeth hon hefyd wrth iddynt gyrraedd ar gyfer eu hapwyntiad.

Cawsom wybod bod gan bob ystafell driniaeth yr offer i gynnal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol.<sup>1</sup> Gosodwyd unedau awyru ac echdynnu ym mhob un o'r ystafelloedd

---

<sup>1</sup> Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr aer

---

triniaeth i hwyluso'r broses o gael gwared ar aer halogedig.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl daflenni gwybodaeth, yr arwyddion a'r posteri a arddangosir yn y practis yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fe'n hysbyswyd bod rhai aelodau o staff yn gallu siarad Cymraeg. Ar ben hynny, dywedodd rheolwr y practis wrthym am eu gwaith gyda'r gwasanaeth "Ask Nicely"<sup>2</sup> i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion yn ddwyieithog.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus y mae'n rheoli'r risg o heintiad er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Archwiliad dihalogi diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<sup>3</sup> a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Polisi rheoli heintiau
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r bath uwchsonig a gweithdrefnau glanhau â llaw
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r peiriannau awtoclaf
- Asesiad risg gweithlu COVID-19 Cymru gyfan.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Darparwyd dogfennau amrywiol ar gyfer atal a rheoli heintiau cyn y gwiriad ansawdd, a oedd yn cynnwys polisi glanhau a pholisi rheoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth o amserlenni a chofnodion glanhau'r practis ar gyfer dihalogi offerynnau ac offer deintyddol.

Cawsom wybod am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau, a'u bod yn eu cyflawni. Cafwyd tystiolaeth o hyn ym mholisi rheoli heintiau'r practis ac amserlenni glanhau'r ystafell driniaeth, a oedd yn amlinellu camau a chyfrifoldebau'r tîm rheoli a'r staff er mwyn atal lledaeniad heintiau. Yn ogytal â hyn, dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar gyfarpar

---

(aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r aer neu drwy ddefnyddiau.

<sup>2</sup> Meddalwedd yw Ask Nicely sy'n gallu casglu barn, adolygiadau ac adborth gan gwsmeriaid mewn amser real

<sup>3</sup> Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfedd â dihalogi. Datblygwyd yr archwiliad gan ddeintyddion yng Nghymru a chaiff ei gefnogi gan yr Adran Ddeintyddol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, AaGIC.

---

diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg<sup>4</sup> ac y cynhelir gwiriadau ac archwiliadau cyfarpar diogelu personol ar hap. Cawsom wybod bod y staff clinigol yn gwisgo cyflau cyfarpar diogelu personol yn hytrach na masgiau a bod hyn wedi bod o gymorth i gleifion a oedd angen darllen gwefusau.

Cawsom wybod bod y system awyru fecanyddol wedi bod o gymorth i leihau'r crynodiad o aerosol yn yr aer pan fyddai gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn cael ei chynnal, a'i bod yn lleihau'r cyfnodau segur<sup>5</sup> rhwng pob claf. Fe'n hysbyswyd bod yr ystafelloedd triniaeth wedi cael eu tacluso a'u bod wedi tynnu 'r offer nad oedd eu hangen arnynt a'u cadw mewn ystafell storio bwrpasol. Dim ond yr offer a oedd yn berthnasol i'r driniaeth oedd yn cael eu cadw yn yr ystafell driniaeth. Mae'r arferion hyn yn sicrhau bod y risg a berir gan heintiau yn cael ei lleihau yn ystod gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol.

Pe bai claf ag arwyddion a symptomau COVID-19 angen triniaeth frys, byddai apwyntiadau'n cael eu trefnu i'r claf gael ei weld gan ddefnyddio llwybr anadlol y practis. Pe na bai triniaeth yn cael ei hystyried yn un frys, byddai'r driniaeth yn cael ei gohirio hyd nes y byddai arwyddion neu symptomau COVID-19 wedi diflannu.

Cawsom wybod bod gan y practis stoc ddigonol o gyfarpar diogelu personol ac y cynhelir gwiriadau stoc yn wythnosol ac y byddai unrhyw gyflenwadau sydd eu hangen yn cael eu harchebu.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas ar gyfer eu rolau a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 23(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Polisi cydsyniad gwybodus
- Cynllun parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff

---

<sup>4</sup> Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

<sup>5</sup> Ar ôl i driniaeth sy'n cynhyrchu aerosol gael ei chyflawni, mae angen cyfnod segur priodol. Cyfnod segur yw'r amser lle caiff yr ystafell driniaeth ei gadael heb amharu arni er mwyn i aerosolau setlo yn yr ystafell driniaeth cyn y gellir cychwyn glanhau a chynnal yr apwyntiad nesaf.

- 
- Aseidiadau risg a gymerwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch staff
  - Archwiliad cardiau cofnod
  - Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
  - Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf
  - Copi o'r daflen wybodaeth i gleifion ddiweddaraf

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddi, a oedd yn dangos cydymffurfiad â hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys adfywio cardio-pwlmonaidd a hyfforddiant tân. Eglurodd rheolwr y practis y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol, gyda'r staff yn parhau i ddefnyddio pecynnau e-ddysgu a hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod system ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am unrhyw newidiadau i ganllawiau, polisiau a gweithdrefnau yn y practis. Cawsom wybod bod gwybodaeth hefyd ar gael i staff ar fewnwyd y cwmni ac y byddai unrhyw newidiadau yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd rheolaidd ac yn cael eu hanfon drwy e-bost at staff

Cawsom wybod y caeodd y practis yn ystod cyfnod cynnar y pandemig. Fodd bynnag, cynhaliodd y practis system rota ar gyfer ateb galwadau am frysbennu o bell<sup>6</sup>. Sicrhaodd hyn y gellid darparu gofal i gleifion yn unol â'u hanghenion.

Roedd gan y practis broses ar waith ar gyfer adrodd am unrhyw ddigwyddiadau, gyda rheolwr y practis yn arolygu unrhyw ddigwyddiadau. Cawsom wybod y byddai unrhyw ddigwyddiadau yn cael eu hadrodd i'r brif swyddfa a bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â staff y practis. Byddai'r staff yn y brif swyddfa yn adrodd i asiantaethau rheoleiddio am unrhyw ddigwyddiadau, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Cyflëwyd unrhyw ganllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i staff trwy gyfrwng cyfarfodydd staff, negeseuon e-bost, a thrwy eu porth ar-lein.

Cawsom wybod bod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion. Cafwyd tystiolaeth o hyn yn y ddogfennaeth archwilio a ddarparwyd gyda'r hunanasesiad, a oedd yn cynnwys archwiliad o ansawdd radiograffau, archwiliad cardiau cofnod, ac archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Rhoddwyd dyddiadau ar yr adroddiadau archwilio, nodwyd camau gweithredu a chafodd themâu eu monitro.

Eglurwyd y broses o wirio offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys. Cofnodwyd y gwiriadau yn y cofnodion priodol.

---

<sup>6</sup> Dyrannu graddau brys er mwyn penderfynu ar drefn y driniaeth o blith nifer o gleifion.

---

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben<sup>7</sup> a'r daflen gwybodaeth i gleifion,<sup>8</sup> a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Yn ogystal â hyn, cawsom sampl o bolisiau a gweithdrefnau ac roedd pob un yn gyfredol, wedi'u llofnodi ac roedd fersiynau wedi'u rheoli.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

---

## Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

---

<sup>7</sup> Ystyr "datganiad o ddiben" ("statement of purpose") yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â Rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac Atodlen 1.

<sup>8</sup> Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.